Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

1 Tachwedd 2017

Annwyl Alun

Safonau'r Gymraeg

Cafodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu dystiolaeth yn ei gyfarfod ar 26 Hydref gan Ms Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, a'i swyddogion.

Yn ystod y sesiwn eglurwyd fod y Llywodraeth wedi penderfynu gohirio cyflwyno rheoliadau pellach o ran safonau'r Gymraeg wrth iddi ymgynghori ar gynigion y Papur Gwyn ar gyfer yr iaith. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw hyn yn wir a beth yw'r amserlen erbyn hyn ar gyfer cyflwyno rheoliadau pellac o ran y safonau?

Cafodd y Pwyllgor hefyd wybod eich bod wedi ymrwymo i gyflwyno'r rheoliadau iechyd cyn diwedd y flwyddyn galendr. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eich cadarnhad mai dyma'r bwriad? Byddai'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch oedi gormodol pellach i gyflwyno'r safonau hyn yn arbennig.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb buan gennych.

Yn gywir

Bethan Jenkins

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565